dda ynghyd i ddangos eu cydymdeimlad. Canwyd emyn coffa am fywyd a gwasanaeth y diweddar Mrs. Jones.

*Awst 21ain, 1978* – Cynhaliwyd pwyllgor ar gyfer trefnu pa fodd i ddathlu hanner canrif o weinidogaeth y Parchg. Giraldus Jones yn yr Eglwys hon. Penderfynwyd bod y trysorydd a'r ysgrifenyddes yn casglu tuag at Dysteb i'r gweinidog a chynnal 'Cwrdd Llongyfarch' yn yr Hydref. Trefnwyd ein bod yn cael teisen gyda'r geiriau 'Ymhob dim, diolchwch' arni.

*Hydref 16eg, 1978* – Cafodd yr ysgrifenyddes neges drist... fod y Parchg. Giraldus Jones yn mynd at ei chwaer i Gaerdydd... oherwydd cyflwr ei iechyd... bydd yn amhosibl i ni gynnal Oedfa Ddathlu fel y bwriadwyd.

*Rhagfyr 3ydd, 1978* – Diwrnod nas anghofir gennym. Bu farw ein gweinidog annwyl bore heddiw. Derbyniwyd y newydd gyda thristwch mawr... buom yn gweddïo y câi ddychwelyd i'n plith. Ond nid felly y bu.

*Rhag. 7fed, 1978* – Angladd y Parchg. Giraldus Jones yn Amlosgfa Treforys. Bu rhai o frodyr yr Eglwys yno.

*Ebrill 15fed, 1979* – Sul y Pasg. Dyma oedfa gynta'r flwyddyn. Gweinyddwyd y Cymun a gwasanaethwyd gan Mr. D.T. Evans, Cwmann.

*Rhagfyr, 1979* – Ym mis Hydref derbyniwyd bil o £12.00 oddi wrth Awdurdod Dŵr Cymru am ddŵr a ddefnyddiwyd yn y capel yn ystod y ddwy flynedd sy'n gorffen ar Fawrth 31ain, 1980. Gan nad oes yr un tap dŵr yn unman ar dir y fynwent a'r capel, anfonodd yr ysgrifenyddes air i'r perwyl hynny. O ganlyniad, cawsom ein rhyddhau o dalu'r swm uchod.

*Mawrth 14eg, 1980* – Derbyniwyd llythyr oddi wrth ysgrifennydd Soar, Llambed yn ein gwahodd i uno â Soar a Bethel, Parc-y-rhos.

*Mai 11eg, 1980* – Diwrnod hanesyddol. Dathlu'r ganfed Cymanfa Ganu Gysegredig yn Soar, Llambed. Yr arweinydd gwâdd oedd Mr. Alun Guy o Gaerdydd, gydag M.E. Williams yn llywyddu oedfa'r plant.

*Tachwedd 30ain, 1980* – Pleidleisiwyd ynglŷn â'r gwahoddiad i uno â'r Eglwysi a nodwyd uchod. Roedd 33 o blaid uno a dau aelod yn unig heb anfon eu papurau'n ôl mewn pryd.

*Tachwedd 30ain, 1980* – Pwyllgor Bugeiliol yn Soar... Gan fod ymateb Eglwys Esgairdawe yn ogystal ag Eglwys Ffaldybrenin yn ffafriol i'r gwahoddiad i uno â Soar a Bethel, 'roedd hyn yn dderbyniol iawn gan ddiaconiaid, y swyddogion a Phwyllgor Bugeiliol Soar a Bethel. Felly, o dan gadeiryddiaeth Mr. Maldwyn Hughes, aethpwyd ymlaen â'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer galw gweinidog newydd.

*Ionawr, 1982* – Cafwyd eira trwm ar ddechrau'r flwyddyn a rhaid oedd archwilio'r capel a'r festri i ddarganfod eu cyflwr. Daeth nifer o'r brodyr ynghyd, gan fentro i'r nenfwd i glirio'r eira a sicrhau bod popeth mewn trefn. Bu rhai o'r chwiorydd hefyd yn sychu'r cyfan ar ôl i'r eira ddadmer, gan sicrhau nad oedd unrhyw ran o'r

Deml yn cael cam. Defnyddiwyd y gwresogydd er mwyn cynhesu'r lle ar ôl y lleithder... Roedd yn rhaid cael barn trydanwr cyn defnyddio'r trydan. Bu Mr. Merfyn Thomas o Lanybydder yn archwilio'r cyfan a gwelodd fod popeth yn ddiogel.

*Ebrill, 1982* – Yn ystod y mis, daeth cyfle i anfon cynnig i'r Cyngor Sir i geisio prynu gardd yr Hen Ysgol gerllaw, i'w defnyddio fel maes parcio pan gynhelir gwasanaethau arbennig, megis Cyfarfodydd Diolchgarwch ac ati. Er siom fawr i'r aelodau, ni fuont yn llwyddiannus yn eu hymgais.

*Awst 5ed, 1984* – Dim oedfa'r bore heddiw am fod Gwasanaeth ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llambed. Aeth rhai o aelodau Esgairdawe yno.

*Ion. 6ed. 1985* – Cafwyd amlinelliad o waith diacon yn y cwrdd Cymundeb o dan arweiniad y gweinidog... aethpwyd ati i orffen y trefniadau ar gyfer ethol diaconiaid.

Penderfynwyd... yn unfrydol, ein bod yn ethol 6... pleidleisio fel arfer. Trefnwyd ein bod yn gofyn i ysgrifenyddes Eglwys Bethel, Parc-y-rhos, Mrs. Avril Williams ac aelod o'r eglwys honno, sef Mr. Goronwy Phillips... ddod atom i gyfri'r pleidleisiau.

*Chwefror 3ydd, 1985* –... ethol chwech o ddiaconiaid.

*Ebrill 14eg, 1985* – Cynhaliwyd rihyrsal i'r plant, ar gyfer Cymanfa Ganu Soar, yn Esgairdawe brynhawn heddiw.

*Mehefin 30ain, 1985* – Oedfa'r hwyr yn dechrau'n gynt nag arfer er mwyn galluogi'r gweinidog a'r aelodau i fynychu cyfarfod i ddathlu canmlwyddiant geni'r llenor, D.J. Williams, yng Nghapel Rhydcymerau.

*Rhagfyr 8fed, 1985* – Ar ddiwedd yr oedfa, darllenodd yr ysgrifenyddes emyn o waith y Parchg. E. Tawe Jones, un o blant yr eglwys, a chyn-ficer Llangwyryfon. Cyfansoddwyd tôn addas i'r geiriau gan Mr. Eddie Evans, Manceinion, – 'Gwên y Wawr'.

*Hydref 2ail, 1986* – Cynhaliwyd ein Cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhaeaf. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg. Brinley Thomas, Gwyddgrug, ac fe draddododd ddwy bregeth afaelgar a phwrpasol... Seiliodd... ei sylwadau yn oedfa'r prynhawn ar yr adnod, – "A phan fedoch gynhaeaf eich tir, na lwyr-feda gyrrau dy faes, ac na loffa loffion dy gynhaeaf, – gâd hwynt i'r tlawd a'r dieithr" (Lefiticus 23:22).

... sylwadau oedfa'r hwyr ar yr adnod, – "Megys pan ddarfyddo y coed, y diffydd y tân" (Diarhebion 26:20).

*Mawrth 29ain, 1987* – Oedfa Gymun gyda'r Parchg. Alun Wyn Dafis, Alltyblaca yn gwasanaethu... Pregethwyd ar y testun, "Myfi yw y Ffordd".

*Mai 24ain, 1987* – Cwrdd Teuluol a'r gweinidog yn gwasanaethu. Cafwyd presenoldeb gweddol... tua 21 yno. Oedfa Fendithiol.

*Rhagfyr19eg, 1987* – Anfon llythyr i Mr. S.J. Evans, ysgrifennydd Rhydybont, i ddymuno'n dda i'r Parchg. a Mrs. T. Glenville Rees, ar ein rhan ni, yn oedfa'r prynhawn 'fory yn Rhydybont.

*Mai 29ain, 1988* – Y Parchg. Gwynfryn Jones, Aberaeron yn

gwasanaethu yn oedfa'r hwyr. Cawsom olwg newydd ar ddameg "Y Samariad Trugarog". Ychydig oedd yn bresennol – noson arw iawn.
*Gorff 24ain, 1988* – Y Parchg. D. Lodwig Jones, Llambed . . . yn oedfa'r hwyr. Seiliodd ei neges ar adnod 33, pennod 17 o Lyfr Cynta' Samiwel:

"A dywedodd Saul wrth Dafydd, Ni elli di fynd yn erbyn y Philistiad hwn, i ymladd ag ef: canys llanc ydwyt ti, ac yntau sydd yn rhyfelwr o'i febyd".

*Medi 9fed, 1988* – Manteisiodd y gweinidog ar y cyfle i ddatgan ei werthfawrogiad ef a'r aelodau o waith yr ysgrifenyddes wrth ysgrifennu 'Hanes y Capel'.
*Mawrth 9fed, 1989* – Pwyllgor yn Soar. Y gweinidog yn rhoi ei benderfyniad ynglŷn ag ymuno â'r Maes Cenhadol gerbron y diaconiaid.
*Mai 21ain, 1989* – Cymundeb gyda'r gweinidog a deuddeg aelod, ynghyd â Mrs. Olwen Davies o Wrecsam a Mrs. Llewelyn Evans o'r Groeslon, dwy o ddisgynyddion y Parchg. John Tibbot o Lanbrynmair – un o weinidogion yr Hen Dŷ Cwrdd!
*Awst 27ain, 1989* – Trefnu i rywun ddymuno'n dda i Guto a Siân yn y Cwrdd Comisiynu yn Soar ar Fedi 27ain, ar ran Esgairdawe. Dewiswyd Llinos Davies i wneud hynny.
*Medi 10fed, 1989* – Cymundeb – y gweinidog ac un ar bymtheg yno, gan gynnwys Mr. Richard Washington Jones a'i ffrind. Bu'r gweinidog yn cydymdeimlo â hwy ar golli'r diweddar E. Tawe Jones, ewythr i Richard Washington. Yna, trefnwyd y Cyrddau Diolchgarwch ac hefyd Dysteb i'r gweinidog.
*Medi 21ain, 1989* – Cyfarfodydd Diolchgarwch, gyda'r Parchg. Goronwy Wynne, Llanymddyfri yn pregethu. Dwy oedfa dda. M.E. Williams yn cyflwyno Tysteb i Guto ar ran aelodau'r eglwys. Guto'n llongyfarch Mrs. Williams am wasanaethu wrth yr organ am hanner can mlynedd. Diwrnod hanesyddol.
*Medi 27ain, 1989* – Cynhaliwyd gwasanaeth yn Soar, o dan nawdd Cyngor Cenhadol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i gomisiynu Guto Prys a Siân ap Gwynfor yn genhadon i Iesu Grist yn Guyana.
*Medi 30ain, 1989* – Y Parchg. Guto Prys ap Gwynfor yn gorffen fel gweinidog yr eglwysi.
*Tach. 5ed, 1989* – Trefnu i gadw'r Dogfennau Cyfreithiol ym Manc y Nat. West. a thalu £5.00 y flwyddyn am hynny.
*Rhag, 31ain, 1989* – Cymundeb ola'r flwyddyn, o dan arweiniad Guto. Roedd deg yn bresennol.
*Tachwedd 4ydd, 1990* – Cyflwynwyd rhodd ariannol i Mary Eunice Williams, Tegfryn i gydnabod ei gwasanaeth fel organyddes y capel am dros hanner can mlynedd.[25]

## Rhoddion i'r Capel

Dangoswyd haelioni a charedigrwydd ymarferol gan nifer o aelodau a chyfeillion yr Achos. Dyma rai rhoddion a gyflwynwyd yn ystod y ganrif hon er hwylustod yr addolwyr:

'*English Holy Bible* presented to the Church at Esgairdawe by Mr. and Mrs. Davies, Tancoed, October, 1922.'

*Llyfr Emynau* at wasanaeth y pulpud gan y Parchgn. J. Washington Jones ac E. Tawe Jones, er cof am eu rhieni annwyl.

Lampau olew i'w gosod ar y pulpud, ynghyd â llieiniau gan Mrs. Vaughan, Tycroes, er cof am ei mam.

Gorchudd du i'w osod ar y pulpud pan gefna'r aelodau â'r fuchedd hon, – gan Mr. a Mrs. Morgan Jones, Derrymore.

*Caniedydd Cynulleidfaol Newydd* (Hen Nodiant), rhoddedig gan Margaret a Mary Olwen Davies, Esgerwen at wasanaeth yr organyddion, Hydref 1af, 1939.

Dwy gadair gan Joshua Jones, Glantawe. (Cyfeiriwyd atynt eisoes.)

Rhodd o lestri te, gydag enw'r capel arnynt, cyllyll a llwyau, gan wragedd y diaconiaid, sef Mrs. S. Jones, Llundain; Mrs. S. Jones, Cwmdawe; Mrs. S.A. Jones, Gwarcoed; Mrs. M.J. Davies, Maesteile a Mr. Joshua Jones, Glantawe, er cof am ei briod, Mrs. M. Jones, – 1953.

Trydan i'r capel a'r festri gan Thomas Lewis Jones, Llundain, er cof am ei briod, Sarah Jones, – 1964. (Fe'i nodwyd eisoes)

'Tar Mac' gan Mr. Idris Davies, Talyllychau; Clwyd ym mhen ucha'r fynwent gan Mr. Tom Davies, Gwynfryn; Clwyd yn fynedfa i'r fynwent newydd gan Mr. Meurig Evans, Llundain; Pyst concrit gan Mr. Jeffrey Morris, Pantfyd, – 1967.

Gorchudd du i'w roi ar fwrdd y capel gan Mr. Ivor Hughes, Pyllau, er cof am Thomas L. Jones, Llundain, a fu'n ddiacon ac ysgrifennydd yr eglwys am flynyddoedd, – 1969.

Cadair freichiau i'r sedd fawr gan Mrs. a Miss Davies, Maesteile, – 1972.

*Beibl Cymraeg,* yn rhoddedig gan Deulu Blaengofiarth, – Ionawr, 1975.

Y Cyfieithiad newydd o'r *Testament Newydd,* rhoddedig gan Deulu Tegfryn, Alltyblaca, – Mawrth 1af, 1975.

*Y Beibl Cymraeg Newydd* at wasanaeth y pulpud gan Walter Elwyn a Mary Eunice Williams, Tegfryn, Alltyblaca, – Mawrth 1af, 1988.

[1]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1827-1878.
[2]Ibid.
[3]Ibid.
[4]*Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t.115.

[5]Ibid., t.143.
[6]Ibid., t.25.
[7]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1827-1878.
[8]Ibid.
[9]Map gan 'Cyryll' drwy law Islwyn Walters, Ffaldybrenin.
[10]Dyddiadur Abel Thomas, Bryndifyr, 1891, drwy law Miss Rowena Fowler, Rhydaman.
[11]Ibid.
[12]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1870-1906.
[13]Ibid.
[14]Cofnodion Thomas Thomas, Maesteile, drwy law ei wyres Miss Olwen Davies.
[15]Ibid.
[16]Adroddiad Eglwys Esgairdawe, 1910, drwy law Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[17]Cofnodion Thomas Thomas, Maesteile, drwy law Miss Olwen Davies.
[18]Ibid.
[19]Ibid.
[20]Ibid.
[21]Ibid.
[22]Adroddiad Eglwys Esgairdawe, 1953.
[23]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1942-1989.
[24]Adroddiad Eglwys Esgairdawe, 1990.
[25]Cofnodion yr Eglwys, 1955-1989.

# XI

# BEDYDDIO, PRIODI A CHLADDU

Down, yn awr, at rai o'r profiadau sy'n wynebu pob bod dynol, boed aelod eglwysig neu beidio. Cyflawnir y defodau hyn gan offeiriaid neu weinidogion. Cofnodir llawer o'r digwyddiadau hyn yng *Nghofrestri'r Eglwys.* Mae cofnodion bedydd gweinidogion cyntaf yr eglwys i'w gweld yn y Gofrestr sy'n dechrau gyda'r geiriau, – 'An account of Registration of several ministers who officiated in succession at Crofftycyff and Esgairdawe, now Ffaldybrenin and Esgairdawe.'

Dyma dabl sy'n dangos faint o gofnodion bedydd a geir ganddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Owen Davies | – | 4 |
| John Tibbott | – | 16 |
| Howell Powell | – | 20 |
| David Morgan | – | 51 |
| Thomas Jones | – | 46 |

Cofnodwyd dau fedydd o eiddo Owen Davies, eisoes, yn ei hanes ef fel y gweinidog cyntaf. Dyma'r ddau arall:

William the son of Morgan William was Baptized
April the 8th – 1761 at Rhydlydan in parish of Cayo
By Owen Davies

Thomas son of Morgan William was Baptized
January 29 – 1766 at Rhydlydan parish of Cayo
By Owen Davies[1]

Awn ymlaen i roi enghreifftiau lleol o fedyddiadau gan y gweinidogion uchod, gan gynnwys rhif y bedydd.

2. David the son of John David was Baptized the
1st of December 1771 at Maesygwiail parish of Cayo
by John Tibbot

4. Daniel son of Morgan William was Born the 8
day of January and Baptized the 16 at
Rhydlydan in Cayo parish 1773 by John Tibbot

11. Joseph son of Morgan William was born the 17th day and Baptized the 25th day of Dec 1779
By John Tibbot

22. Catherine the daughter of Thomas David Morgan was Baptized the 17th 1788 by Howell Powell

28. Mary the daughter of Evan Evans of the parish of Llansawel was Baptized March the 1st 1788
by Howell Powell

30. Jonathan Powell the son of Howell Powell, Minister was baptized Jan 6th 1789.

1. Joseph the son of John William of Caemawr, bap. Aug. 13th 1789, by David Morgan

13. Wm. son of Rees Evan, Rhydyfallen bap. May 30th 1791, by David Morgan

36. John son of Thos, Morgan Wenallt bap. Nov. 9th 1794, by Dd Morgan

3. Elizabeth daughter of Evan Price of Pannau Gleision bap. March 7, 1811,
by Thos. Jones

25. John son of Dd Davies of Crachdir, Parish of Llansawel, by Mary his wife, bap. Sept. 11 – 1812,
by T. Jones

41. David the son + Elinor the daughter of John Griffiths, Alltfydir, parish of Penycarreg – by Margaret his wife, were baptized August 17th 1813
by Thos. Jones

44. Elizabeth daughter of Wm Thos. Bettygate, parish of Penycarreg – by Elizabeth his wife bap. Oct 11th 1813, by T. Jones[2]

Ceir cofnodion am 1,106 o fedyddiadau a weinyddwyd gan y gweinidog nesaf, sef Rhys Jones. Mae'n amlwg, wrth chwilio drwy Gofrestr yr Eglwys ei fod ef wedi cadw cofnodion manwl o ddigwyddiadau ei gyfnod. Rhydd bob gwybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys enw'r tad a'r fam, y cartref, y plwy a bron yn ddieithriad, dyddiad geni'r plentyn – manylion gwerthfawr. Sylweddolwn, erbyn heddiw, mor bwysig yw'r cofnodion hyn gan fod cynifer ohonom yn ceisio olrhain ein hynafiaid. Dyma weinidog a lafuriodd yn ddyfal yn yr ofalaeth hon, gan gyflawni ei waith yn drwyadl, yn ôl tystiolaeth a drosglwyddwyd o'r gorffennol. Felly, wrth feddwl am ei ofal o'i aelodau a'i gyfeillion, gresyn yw canfod cyflwr y garreg ar

ei fedd wrth ddrws capel yr Annibynwyr, Pentre-ty-gwyn, Llanymddyfri. Dyma enwau rhai o'r plant a fedyddiwyd ganddo:

47. William the son of Dd Jones and Elizabeth his
wife of Gwarycoed in the parish of Pencarreg was
born May 6th and Bap. 16th 1820.
By me R. Jones

58. Anne the daughter of Jno. Jones and Susannah
his wife of Esgairwen in the parish of Llansawel
was born Dec. 19th and Bap. 26th 1820.
By me R. Jones

72. Mary the daughter of Dd Richards of Langofuarth
parish of Llansawel was born May 22nd and
Bap June 17th 1821.
By me R.J.

95. Jno. the son of Thomas Jones by Anne his wife of
Penllain parish of Pencarreg was born April 19th and
Bap. 22nd 1822.
By me R. Jones

112. Dd the son of James Davies of Cwmdawe
parish of Pencarreg was born Oct. 9th 1822
and was Bap. Feb. 23rd 1823.
By me R.J.

230. George the son of Lewis Thomas by Sarah his
wife of Bryndafydd in the parish of Llansawel
was born Decem. 12th Bap. 21st 1826.
By me R.J.

253. Anne the daughter of Thos. Williams by
Margaret his wife of Dildre parish of Llansawel
was born Feb. 21st Bap. May 30th 1827.
By me R.J.

313. William the son of Evan Parry by Margaret
his wife of Rhydfallen fach parish of Pencarreg
was born March 20th Bap. May the 13th, 1829.
By R.J.

354. Lettice the daughter of John Thomas of Tyllwyd
Parish of Llansawel by Mary his wife was
born Octob. 1st Bap. 18th 1830.
By R. Jones

478. James the son of Thos. Davies of Bryndifyr in
the Parish of Penycarreg by Jane his wife
was born March 18th baptized May 25th 1835.
by me Rees Jones

Cofnod, dyddiedig Gorffennaf 20fed, 1837 yw rhif 545 yn y Gofrestr. Yn dilyn hwnnw, cawn y geiriau,

The Registration of Baptisms since the new law of registration and sending of the Register to the Board.

579. William son of unknown parents under the care of Henry Jones of Lampeter was Baptized at Esgairdawe Meeting house May 20th 1838.
by me Rees Jones

807. Ryse Chilcott, son of the Revd J.R. Jones Independent minister at Kilsby Northamptonshire by Ann Southwal (his wife) was born October 26th 1844 and baptized (at Kilsby) on the 4th of June 1845.
by me Rees Jones

870. Eliza daughter of the Revd Evan Jones of Crugybar by Ann (his wife) was born June 20th and Baptized July 20th 1847.
by me Rees Jones

1063. David son of David Jones by Mary (his wife) of Esgair, parish of Llansawel was born November 11th and baptized December 24th 1855.
by me Rees Jones

1092. John son of John Jones by Jane (his wife) of Esgairdawe parish of Pencarreg was born April 24 and baptized May 25 – 1857.
by me Rees Jones[3]

Pan ddodwyd y Gofrestr yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn Llundain, dyma oedd nodyn rhagarweiniol y gweinidog:

Births and Baptizms in the Chapel called Ffaldybrenin and Esgairdawe being of Independent Denomination situated in several Parishes of Llanycrwys and Pencarreg in the County of Carmarthen – it subsisted and was founded sometime before the year 1739.
Those who formerly met shown at Crofftycyff and Esgairdawe are the same as Ffaldybrenin and Esgairdawe.

Rees Jones, Minister
25 July 1837[4]

Down at rai o gofnodion bedydd y gweinidogion a ddaeth ar ôl Rhys Jones. Dyma'r hyn a welir ar ddechrau'r Gofrestr:

Register of baptisms in connection with Ffaldybrenin and Esgairdawe Congregational Churches under the care of Henry Jones.

Buddiol yw cofnodi enwau rhai o'r babanod a fedyddiwyd ganddo, –

59. Mary, daughter of Evan + Mary Jones, Cwmtrebeddau, born Aug. 4th 1862 and baptized Sept. 20th 1863.

175. Eleanor, daughter of Thomas + Mary Thomas, Maesteile baptized May 19th 1872.

296. David John, a child nursed by John Morgan, Esgairdawe baptized March 26th 1882.

313 + Thomas + David, twin children of John +
314 Margaret Davies of Cwmdawe Baptized July 12th 1883.

321 William Morgan, son of Morgan + Margaret Jones, Llundain fechan baptized May 27th 1884.

323. George, son of John + Anne George, Bryndafydd uchaf baptized June 15th 1884.

434. Mary, daughter of David + Margaret Williams, Hen Dy Cwrdd baptized March 20th 1892.

514. Mary Jane, daughter of Thomas + Mary Thomas, Maesteile was baptized by Mr. Richards, Myddfai Nov. 13th 1898.[5]

(Dichon nad oedd Henry Jones yn gyfleus i gyflawni'r gorchwyl y diwrnod hwnnw).

Geir 516 o gofnodion bedydd yng nghyfnod Henry Jones a dyma'r nifer a gofnodwyd gan ei ddilynwyr:

| | | |
|---|---|---|
| James Jones | – | 81 |
| D. Myddfai Thomas | – | 24 |
| David Williams | – | – |
| Giraldus Jones | – | 124 |

Pan ddaeth James Jones i'r ofalaeth, dechreuodd ysgrifennu'r cofnodion yn Gymraeg:

1. Bedyddiwyd Elizabeth, merch Dafydd ac Elizabeth Morgan, Troedrhiw, Awst 19eg, 1900

18. Bedyddiwyd Margaret Ann, merch Howell a Jane Jones, Rhydfallen isaf, Ebrill 28ain, 1901.

32. Mary, merch Evan ac Ann Jones, Cwmtrebeddi, Chwef. 11eg, 1902.

53. James Llewelyn, mab Dafydd a Kate George, Blaenddol, Hyd. 9fed, 1904.

58. Rachel, merch Rees a Mary Lloyd, Pannau, Ion. 29ain, 1905.

71. Thomas Joshua, mab Dafydd a Hannah Jones, Betygate, Ion. 29ain, 1907.

75. Annie, merch Thomas a Margaret Evans, Tredomen, Meh. 14, 1907.[6]

Cofnodion D. Myddfai Thomas:

5. Mary Letisha, merch Mr. a Mrs. Davies, Gelliwhimpen, Chwef. 16fed, 1910.

6. John Obadiah, mab Mr. a Mrs. Willie Jones, Cwmdawe, Chwef. 20fed, 1910.
16. Eirwen Myfanwy, merch Mr. a Mrs. D. Myddfai Thomas, gan Eli Evans, Cellan, Tach. 25ain, 1909.
17. Gwyneth Eurfyl, merch Mr. a Mrs. D. Myddfai Thomas, gan Eli Evans, Cellan, Meh. 30ain, 1912.
22. Thomas Emrys, mab Mr. a Mrs. Evans, Tredomen, Tach. 19eg, 1912.[7]

Cofnodion Giraldus Jones:

18. William Irfon Thomas a Iorwerth John Richard, plant Mr. a Mrs. Davies, Brynyrysgol, 6.10.39.
20. Sarah Gwendoline Eleri, merch Mr. a Mrs. Eric Dicks, Pantfid ucha yng Nghapel Esgairdawe, 16.6.40.
59. Taenellwyd Shân, merch Mr. a Mrs. Gareth Owen (Beti) ar y Sul yn y Capel, 11.7.54.
62 Taenellwyd William Aled Lewis, mab Mr. a Mrs. J. Gwilym Evans, Pantwimben, Llansawel yn ffermdy Llundain, Esgairdawe, Sul, 9.12.56.
69. Taenellwyd Sarah Bethan Lewis Jones, merch Mr. a Mrs. A.L. Jones, Brynmelyn, nawn Sul, ym Mrynmelyn, 12.4.59.
78. Taenellwyd Gwyneth Rael Ann, merch Mr. a Mrs. Elwyn Williams, Alltyblaca, ym Mryndafydd, 29.1.61.
93. Mair Roselle, merch Mr. a Mrs. David Thomas, Pistyllmaen, Llanybydder, yn Esgairdawe, nawn Sul, 17.10.65.
97. Taenellu Sonia Glesni Ceinwen, merch Mr. a Mrs. Elwyn Williams, Tegfryn, Alltyblaca ar ôl oedfa'r p'nawn (yn y cartre), 1.5.66.
102. Taenellwyd Margaret Denise, merch Mr. a Mrs. David Thomas, Pistyllmaen a John Adrian, mab Mr. a Mrs. Gwynfor Thomas, 8 Tai Cyngor, Rhydybont, Llanybyther, yn y gwasanaeth yn Esgairdawe, Nawn Sul, 6.8.67.
109. Taenellu Wendy Margaret, merch Mr. a Mrs. Iwan Griffiths, Pantfud, Sul, yn y cartref, 11.5.69.
118. Taenellu John Gareth, mab Mr. a Mrs. Meurig Evans, Llundain, ar yr aelwyd, 9.11.73.[8]

Yn ystod gweinidogaeth Guto Prys ap Gwynfor, ni fedyddiwyd un o blant yr eglwys.

## Priodasau

Ym 1837, pasiwyd deddf yn y Senedd yn rhoi hawl i weinyddu priodasau mewn capeli. Cofrestrwyd y fam eglwys, sef Esgair-

dawe ar gyfer hynny ar Ionawr 13eg, 1873 a'r ferch, sef Ffaldybrenin ar Ionawr 10fed, 1860.

Ychydig iawn o gofnodion am briodasau a geir yn y cofrestri. Dyma ddau o'r dyddiau cynnar:

> Mary Evan, Tre'r Domen married Thomas David Rees, Jany ye 10th 1766.
>
> John Thomas of Rhydyfallen in Pencarreg and Rachel David married at Llanycrwys, June ye 27th 1766
> before the Revd Mr Loyson Lewis[9]

Gweinyddwyd nifer o briodasau gan Giraldus Jones yn y capel presennol ond ni ddaethpwyd o hyd i'r cofnodion. Bu yno rai priodasau hefyd rhwng 1978 a'r presennol ond ofer fu'r ymdrech i ganfod record ohonynt.

**Claddedigaethau**

Fel y cyfeiriwyd eisoes, mae'n debyg, yn ôl tystiolaeth lafar, fod llawer o aelodau'r Hen Dŷ Cwrdd wedi eu claddu mewn mynwent fechan yr ochr arall i'r heol, a hynny rhwng 1756 a 1844. Eto, ni cheir prawf o hynny yn y llyfrau cofnodion ond gwelir fod nifer o'r aelodau wedi eu claddu ym mynwent Ffaldybrenin rhwng 1838 a 1844. Mae cofnodion Rhys Jones yn profi hyn, –

14. August 10 – 1838. Buried at Ffaldybrenin bearing place David Davies of Maesygwiail fach in the parish of Cayo, Farmer, Aged 37 years.
21. January 14 – 1840. Buried at Ffaldybrenin bearing place, Charles the son of David Davies of Maesygwiail fach in the parish of Cayo, Aged 3 years 6 months.
23. April 20 – 1840. Buried at Ffaldybrenin bearing place Jemima, one of the parish paupers Aged 22.
28. May 12 – 1841. Buried at Ffaldybrenin bearing place John Thomas of Penllain in the parish of Pencarreg, farmer Age 52.
32. John, son of William Jones, by Ann his wife of Maesygwiail fawr, parish of Cayo. Buried at Ffaldybrenin April 25 – 1842. Aged 15.
33. May 17 – 1842. Buried at Ffaldybrenin bearing place David Price of Bryndifyr in the parish of Pencarreg Aged 38 years.
39. Nov. 2 – 1843. Buried at Ffaldybrenin bearing Ground, Jane daughter of John Thomas (by Mary his wife) of Maesty in the parish of Cayo Aged 15 weeks.

49. June 13 – 1844. Buried at Ffaldybrenin burying place Anne daughter of William Morgan of Llwyn Owen parish of Pencarreg Aged 16 years.

50. June 17 – 1844. Buried at Ffaldybrenin burying place Elinor wife of Evan Jones of Storom isaf parish of Pencarreg Aged 46 years.[10]

Mae lle i gredu bod y fynwent fechan gerllaw'r Hen Dŷ Cwrdd wedi llanw. Symudwyd i'r capel newydd rywbryd yn ystod 1844 a'r garreg fedd hynaf a welir yn y fynwent o'i gwmpas yw'r un am berson a hunodd ar Ragfyr 29ain, 1844.

Dyma gofnodion Henry Jones am rai a gladdwyd yn Esgairdawe:

1. Jan 11 – 1860. A very sudden death, Eleanor Jones, Caemawr fell instantly on the road on her way home from Lampeter.

39. Ion, 29 – 1862. Claddwyd D. Davies, Rhydfallen yn Esgairdawe.

114. Claddu plentyn Thomas Jenkins, Mynydd yn Esgairdawe Chwef 13 – 1867.

143. Claddu merch fach Pantyfedwen yn Esgairdawe Maw. 21 – 1869.

151. Claddu John Morgan Rhydlydan yn Esgairdawe Medi 22, 1869.

165. Claddu Mary Thomas Tyllwyd yn Esgairdawe Mawrth 25, 1870.

189. Claddu John Rees Trefenty yn Esgairdawe Medi 16, 1871.

200. Claddu Margaret Jones Cwmtrebeddau yn Esgairdawe Rhagfyr 14, 1872.

247. Claddu Martha Thomas Wern yn Esgairdawe Ion. 17 – 1877.

287. Claddu Lewis Thomas Newgate yn Esgairdawe Meh 7 – 1879.

353. Claddu Evan Jones Storom uchaf yn Esgairdawe Chwef 2 1885

394. Claddu Thomas Thomas Maesteile yn Esgairdawe Mai 12, 1887. Dyn da iawn.

420. Claddu Ben, plentyn Hendycwrdd Esgairdawe yn Esgairdawe Tach. 3, 1890.

478. Claddu Evan Jones, Lletywenol yn Esgairdawe Mai 10, 1894.

518. Claddu John Jones, Caemawr yn Esgairdawe Mai 10, 1898.

525. Claddu Elizabeth Morgans Troedyrhiw yn Esgairdawe Ion. 8, 1898.[11]

Cofnodion claddu gan James Jones:

Claddwyd y Parch. Henry Jones yn Ffaldybrenin Ion. 17, 1901.

Claddwyd Sarah Jones, Maesygwiail fach yn Esgairdawe Rhag 9, 1901.

Claddwyd Mary Davies, Tanycoed yn Esgairdawe Mai 27, 1902.

Claddwyd Sarah Jones, Llwynowen yn Esgairdawe Ion. 25, 1904.

Claddwyd Morgan Jones, Llundain yn Esgairdawe Ion. 5, 1905.

Claddwyd Mary Davies, Hendrelas yn Esgairdawe Ion, 29, 1906.[12]

Cofnodion D. Myddfai Thomas:

Claddu Evan Williams, Brynyrysgol yn Esgairdawe Chwef. 17 – 1910.

Claddu Evan Morgan Jones, Cwmdawe yn Esgairdawe Hyd.5 – 1910.

Claddu Simon Jones, Hafod y maidd yn Esgairdawe Mehefin 21, 1911.

Claddu Mary Jones, Cwmtrebeddi yn Esgairdawe Chwef 5, 1912.

Claddu Morgan Morgan, Storom uchaf yn Esgairdawe Ebrill 3, 1912.

Claddu James Jones, Pistyllgwyn yn Esgairdawe Mehefin 7, 1912.[13]

Gwaetha'r modd, ni chadwodd y gweinidog nesaf, sef David Williams gofnodion o gwbl yn ystod ei weinidogaeth o 1913 hyd 1928. Bu ei olynydd, sef Giraldus Jones yn gwasanaethu yn angladdau nifer dda o aelodau a chyfeillion Capel Esgairdawe o 1928 – 1978 ond ni ddaeth ei gofnodion claddu i'r golwg.

[1]*Cofrestr yr Eglwys,* 1765-1857.
[2]Ibid.
[3]Ibid.
[4]*Cofrestr Esgairdawe,* PRO Llundain, drwy law Richard Gresty, Fleet, Hampshire.
[5]*Coflyfr* – Genedigaethau a Marwolaethau, 1859-1913.
[6]Ibid.
[7]Ibid.
[8]*Llyfr Gwasanaeth* y Parchg. Giraldus Jones.
[9]*Cofrestr yr Eglwys,* 1765-1857.
[10]Ibid.
[11]*Coflyfr* – Genedigaethau a Marwolaethau, 1859-1913.
[12]Ibid.
[13]Ibid.

# XII

# TRYCHINEB YN YR ARDAL

Wedi sôn am gladdedigaethau, trist yw cyfeirio at y ffaith na chaiff pob person farwolaeth dawel yng nghlydwch cartref neu ysbyty. Fel ymhob ardal, ysywaeth, cafwyd trychinebau erchyll ac angheuol yn y gymdogaeth hon. Digon yw cyfeirio at un a gollodd ei fywyd mewn modd anesboniadwy ac a gladdwyd yng nghladdfa Esgairdawe. Er hynny, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth a ddynoda'r union fan lle claddwyd ef.

Ganed Morgan Williams yn y Wenallt-fawr ger Rhydcymerau. Bedyddiwyd ef gan y Parchedig Rhys Jones, a dyma gopi o gofnod ei fedydd:

> 1025. Morgan son of James Williams by Mary (his wife) of Wenallt fawr parish of Pencarreg was born December 11 – 1849 and baptized May 2 – 1854,
> by me R. Jones[1]

Bedyddiwyd Anne, ei chwaer ar yr un diwrnod. Roeddent ynchwech o blant ac er iddynt gael eu bedyddio gan weinidog Esgairdawe, nid oes tystiolaeth fod eu rhieni, James a Mary, yn aelodau o'r capel. Bu farw'r fam ym 1855, pan oedd Morgan ond ychydig dros ei bum mlwydd oed. Hunodd y tad ym 1880. Claddwyd y ddau o flaen capel Esgairdawe a dyma'r hyn a welir ar y garreg fedd:

COFIANT
am
Mary Gwraig
JAMES WILLIAMS o'r WENALLT
Plwyf Pencarreg
bu farw Ebrill y 26, 1855
yn 47 oed
Hefyd y rhagddywededig
JAMES WILLIAMS
bu farw Rhagfyr 28, 1880
yn 76 oed

Yn ôl cyfrifiad 1881, trigai Morgan, a oedd yn un ar ddeg ar hugain mlwydd oed ar y pryd, gydag Anne, ei chwaer yn y Wenallt-fawr. Roedd y ddau'n ddibriod ac yn ffermio 166 o erwau. Erbyn 1892, ceir hanes mai Morgan a'i nith oedd yn byw yno. Gŵr a gadwai ei feddyliau iddo'i hun oedd Morgan ac oherwydd rhyw ofergoelion rhyfedd, roedd yn berson gofidus a thrafferthus. Beth bynnag, gadawodd aelwyd gysurus ei nith yn blygeiniol fore Llun, Mai 2ail, 1892, a hynny heb ei hysbysu o'i gynlluniau. Ni ddychwelodd y noson honno ac ymhen pythefnos, oherwydd y dirgelwch ynglŷn â'i ddiflaniad, aeth mintai gref i chwilio amdano. Daeth hanesion o bob math, ac er parhau i chwilio am bum wythnos ni chafwyd yr un argoel ohono. Gwelwyd mai ofer oedd coelio'r syniadau ffôl a ddaeth o un cyfeiriad:

> There follows a rather obscure reference to the servants of a certain John Daniel, who helped with the search. The implication seems to be that John Daniel was a 'dyn hysbys' or 'cunning man' in the tradition of Harries, Cwrt-y-Cadno . . . John's directions did not prove to be of any use.[2]

O'r diwedd, daeth arwyddion mwy cywir "Fod Morgan yn y coed i'w gael", sef yng nghoedwigoedd Crynarth, rhwng gallt Pant-y-betws a Chapel Mair, plwy Llanfihangel Rhos-y-Corn, a bod ei holl esgyrn yn yfflon. Aethpwyd yno ac fe'i cafwyd yn ddarnau mân ac eithrio'i "draed a gedwid gan ei 'sgidiau". Barnwyd fod cŵn wedi ei fwyta a bod ei farwolaeth yn ddirgelwch llwyr oherwydd na ellid profi dim oddi wrth ei weddillion prin. Mae'n debyg, yn ôl trigolion yr ardal, bod cwm a elwid 'Cwm Lladron' yng nghoedwig Crynarth, a'i bod yn beryglus mynd yno hyd yn oed yn y dydd.

Bu Morgan ar goll am saith wythnos a diwrnod. Yn ystod yr amser hwnnw, bu rhai'n drwgdybio'i berthnasau, ond, yn ffodus, daethpwyd o hyd i'w arian a daeth terfyn ar yr hen storïau drwg a aeth ar led. Dyma gofnod a geir ynglŷn â'i ewyllys:

> Morgan Wiliams, of Wenallt fawr, Pencarreg, Carmarthen, died on or between 2nd May and 27th June, 1892 in Crynarth Wood, Llanfihangel Rhos-y-corn. Administration Carmarthen 6th April, 1893 to Mary Evans wife of John Evans, £51-11-6.[3]

Cafodd Morgan angladd parchus er nad oedd "yn ei arch ond esgyrn mân a dillad". Fel ei rieni, claddwyd ef yn Esgairdawe,

ond methiant fu'r ymdrech i geisio canfod ei enw ar garreg fedd yno.

Ysgrifennwyd baled am yr amgylchiad trist gan y bardd o Wernogle, D. Ehedydd Jones. Fe'i cyhoeddwyd yn Llambed gan T.L. Davies a'i Gyfeillion, Argraffwyr. Mae'n cynnwys pymtheg pennill, wyth llinell yr un, sy'n rhoi hanes y drychineb yn fanwl. Y faled oedd cyfrwng y cyfnod o ledaenu newyddion anghyffredin a thrist yng Nghymru wledig. Caent eu gwerthu mewn ffeiriau am swllt yr un:

> Any unusual event would spur the balladeer into action (murders were a particularly fruitful source of inspiration). However, it was not a murder, but a mysterious disappearance, which fired the Gwernogle poet.[4]

Yn y degfed pennill, mae'r baledwr yn cyfeirio at y ffaith fod ei berthnasau'n cael eu cyhuddo o lofruddio Morgan:

> Fortunately, his money was found, which scotched the stories, and the ballad-writer suggests that those responsible for such slander were potential murderers themselves.[5]

Hwyrach i'r drychineb hon fod yn bwnc trafod mewn gwahanol fannau yn y cylch, megis efail y gof, gweithdy'r saer a'r teiliwr. Heb amheuaeth, bu llawer dadl hefyd ynglŷn â'r dirgelwch yn nhafarnau'r ardal – y "Plough" yng Ngwernogle, y "Wheatensheaf" a'r Llew Du yn Abergorlech. Yn ein dyddiau ni, drwy'r cyfryngau a'r papurau newyddion y taenir gwybodaeth am ddigwyddiadau cyffrous a newyddion drwg yng Nghymru ac ym mhedwar ban y byd. Tybed, felly, yn wyneb datblygiadau modern, a fyddai cymaint o werthu ar faledi yn ein hoes ni o'i gymharu â'r arferiad yn y ganrif ddiwethaf. O'r braidd, oherwydd rhaid cofio mai drwy'r faled yn unig y deuai trigolion y gwahanol ardaloedd i wybod am y manylion ynglŷn â digwyddiadau trychinebus ledled Cymru. Buddiol, felly, yw cofnodi cynnwys y faled hon, a nodi mai, yn ôl rhai, 'Cynarth' yw'r enw cywir ar y coedwigoedd a enwir, ac nid 'Crynarth'. Dyma a welir ar y clawr:

CAN<br>MORGAN WILLIAMS<br>GYNT O WENALLTFAWR, RHYDCYMERAU,<br>YR HWN A GOLLWYD<br>Dydd Llun, MAI yr 2ail, 1892.

AC A GAFWYD YN NGHOEDWIGOEDD CRYNARTH, PLWYF LLANFIHANGEL RHOS-Y-CORN, MEHEFIN 21ain, GWEDI BOD IN EISIEU AM SAITH WYTHNOS A DIWRNOD, PRYD YR OEDD Y CWN WEDI BWYTA BRON YR OLL O HONO.

Ni ddeiliaid hoff hen Gymru wen
  Er cymaint yw ein breintiau,
E' gyfyd cwmwl du uwch ben
  Rhyw rai o honom weithiau;
Ac arllwys ei gynwysiad mawr
  Wnaiff yma thraw'n feunyddiol,
Nes peri nad yw daear lawr
  I neb yn lle dymunol.

Cyn derfydd un hen newydd blin
  Daw arall mwy difrifol,
Nes gwneuthur mynwes dyner dyn
  Yn letty calon rwygol;
Ond o'r newyddion dua'u lliw
  Wna lawer yn anyddan –
Y newydd mwyaf pwysig yw
  Marwolaeth ryfedd Morgan.

Gadawodd aelwyd glyd ei nith
  Pan dorodd gwawr un boreu,
Ni welodd neb o hono byth
  Cael gwybod ei fwriadau;
E' gadwai'i feddwl iddo'i hun
  I chwyddo ei drallodion,
A theimlai fod ei fron yn flin
  Dan bwys hen ofergoelion.

Dechreuodd ef ei ffordd yn iawn
  I'r lle bwriadau fyned,
Ond daliwyd ef gan dristwch llawn
  Drodd iddo yn gaethiwed;
Ac mewn rhyw fodd nas gwyddom ni
  E' grwydrodd i'r anialwch
Am faint ei ymdrech yno fu
  A erys yn ddirgelwch.

Efallai iddo yno fod
  Am ddyddiau yn ymboeni,
Heb ddim o'i amgylch ond y coed
  Na fedrent arno weini;

Ac felly gorfod iddo fyn'd
  I fyd sy'n llawn o sylwedd–
Os nad oedd yn y goedwig ffrynd
  Pwy wyr na cha'dd drugaredd.

Yn mhen pythefnos cychwyn wnaed
  Yn fintai fawr i'w chwilio,
A'i hanes yn mhob dull a gaed
  Gan rai nas gellid coelio;
A chwilio wnaed bum wythnos glir,
  Y creigiau a'r afonydd:
Y cymoedd, a phob diffaith dir,
  Yn nghyd a'r dyfnion ffosydd.

I waered yn y cyfnod blin
  Daeth gweision pur John Daniel,
Er mwyn cael allan gorph y dyn
  I'w osod yn ei argel;
Ond buan iawn y gwelsant hwy
  Fod John yn llawn ffaeleddau,
Ac ofer ydyw credu mwy
  Mewn darllen hen blanedau.

Pan fethodd y proffwydi gwael
  Fe gafwyd rhyw arwyddion,
Fod Morgan yn y coed i'w gael
  A'i esgyrn yn ysgyrion;
A chwilio dyfal eto fu
  Nes cafwyd ei weddillion,
Pryd darfu tristwch ceraint cu
  'Rol yr wythnosau blinion.

Yr olwg gyntaf arno gaed
  Ar hyd y coed yn ddarnau,
Ei gorph yn eisieu ond ei draed
  A gedwid gan ei 'sgidiau;
Y cwn oedd gwedi bwyta'r oll
  O'r babell frau oedd ganddo;
Ac felly, mwy y bydd ar goll
  Nes dyfod Crist i'w chwilio.

Caed gafael yn ei arian ef
  Er trangc i hen storiau,
Y dynion gwaethaf dan y nef
  Ddrwgdybient ei berthnasau;

Boed iddynt hwy'r gwehilion cas
  Am hyn i gofio gwylio,
Rhag ofn y delir hwy a'u tras
  Yn euog o lofruddio.

E' gafodd Morgan berffaith barch
  Gan swyddwyr ei drengholiad,
Pryd nad oedd genym yn ei arch
  Ond esgyrn man a dillad;
A rhoddwyd ef mewn gwely pridd
  Heb ddim o'r cnawd i bydru
Yn monwent Esgairdawe sydd
  Orweddfan ei rieni.

Ar bwys ei hanes rhyfedd ef
  Na fyddwn mor rhyfygus,
A chredu fod o dan y nef
  Un dyn all fod yn hysbys;
A pheidied neb ddrwgdybio'r llall,
  Heblaw fod genym safon,
Gwell i ni fod yn ddynion call
  A ninnau'n gyd fforddolion.

Na fydded neb o fewn y byd
  Yn barnu dim ar Morgan
Heb gofio ein bod oll i gyd
  Yn ddynion digon egwan;
A chwithau famau tyner llon
  Sydd am eich plant mewn helynt
Ni wyddoch ar y ddaear hon
  Pa beth a ddaw o honynt.

Wrth golli ffryndiau mwyaf pur
  Na fyddwn yn anfoddlon,
Os cawn eu gweld yn marw'n wir
  Dan gronglwyd eu cyfeillion;
A chael eu cyrph i'w rhoi bob darn
  Yn brydlon yn y ddaear,
I orphwys hyd ddydd y farn
  Heb esgyrn un ar wasgar.

Boed i ni gofio beunydd mwy
  I geisio Duw yn ddyfal,
I'n harwain yn ddiogel drwy
  Hen ddyrys daith yr anial;

A phan yn gorfod myn'd o'r byd
  Yn nwylaw oerion angau,
Gael marw yn ein llety clyd,
  Yn ngolwg ein perthnasau.

D. EHEDYDD JONES [6]

Gwernogle

Medrai baledwyr y cyfnod ddarlunio stori am ddigwyddiad arbennig mewn modd effeithiol, a llwyddo i roi min ar archwaeth y darllenydd. Yn yr ail bennill, mae D. Ehedydd Jones yn cyfeirio at helbulon difrifol sy'n rhwym o wynebu bodau dynol, gan beri loes i'r galon. Mae'r nawfed pennill yn rhoi darlun truenus o'r gweddillion a gafwyd yn y goedwig ac mae'r baledwr yn apelio at bawb i beidio dangos anfodlonrwydd am farwolaeth câr neu gyfaill yn niddosrwydd adeilad. Wrth gofio hefyd i ychydig dros saith wythnos fynd heibio oddi ar ddiflaniad rhyfedd Morgan, nid oes angen griddfan pan fydd modd claddu corff cyfan yn amserol, yn ôl y baledwr.

Diddorol yw cyfeirio at y ffaith fod nifer o ddisgynyddion D. Ehedydd Jones yn byw yn yr ardal o hyd. Bu mab iddo, sef T. Ehedydd Jones yn weinidog gyda'r Methodistiaid yn ardal Pumsaint yn negawdau cynnar y ganrif hon. Mae ŵyr i'r baledwr, sef Dr. D. Hedydd Davies wedi dringo'n uchel ym myd addysg. Ef yw Swyddog Addysg Rhanbarthol Caerfyrddin ar hyn o bryd. Mae hefyd yn athletwr o fri ac wedi gwneud enw iddo'i hun yn y maes hwnnw.

1 Cofrestr yr Eglwys, 1765-1857.
2 "Clychau'r Cwm", papur newydd plwyfi Llanfihangel Rhos-y-Corn, Rhifyn 11, Gŵyl Ddewi, 1987, Patrick Thomas, Brechfa.
3 Llyfr Mynegeion am Ewyllysiau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
4 "Clychau'r Cwm", 1987, Patrick Thomas, Brechfa.
5 Ibid.
6 Cân Morgan Williams, D. Ehedydd Jones, 1892, drwy law Emrys Williams, Aberystwyth.